**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru

29 Mawrth 2019

Annwyl Vaughan,

**Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: darpariaeth ar gyfer cleifion mewnol**

Diolch am eich **llythyr dyddiedig 25 Chwefror** mewn ymateb i'm **llythyr ynghylch gwasanaethau CAMHS i gleifion mewnol yng Nghymru**.

Fel Pwyllgor, rydym yn dal i bryderu'n fawr am y cyfyngiadau sydd ar y lleoliadau Haen 4 yn Abergele a Thŷ Llidiard. Mae casgliadau adroddiad thematig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, '*Sut y mae gwasanaethau gofal iechyd yn diwallu anghenion pobl ifanc?*', a gyhoeddwyd heddiw, yn ategu ein pryderon ynghylch y ddarpariaeth i gleifion yng Nghymru. Testun pryder arbennig i ni yw casgliadau AGIC yn nodi:

- na allent fod yn sicr bob amser bod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol oherwydd iddynt ganfod gwendidau mewn systemau i sicrhau gofal diogel, gan gynnwys systemau ar gyfer cael gafael ar gyfarpar argyfwng;
- eu bod yn poeni am allu presennol unedau CAMHS yng Nghymru i letya pobl ifanc risg uchel, oherwydd heriau yn ymwneud â staffio, yr amgylchedd a rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol, gyda phryderon bod hyn yn golygu bod rhaid i rai pobl ifanc gael eu lleoli y tu allan i'w hardaloedd.

Rydym yn ddiolchgar am y manylion a ddarparwyd yn eich llythyr, ac yn y llythyrau gan **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** (drwy'r Comisiynydd Plant) a **Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.** Fodd bynnag, rydym am gael sicrwydd ar frys gennych chi ynghylch y materion isod:

- yr amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder yn y ddau leoliad;
- y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau y darperir cymorth da lle y lleolir rhywun y tu allan i'w ardal (gan gynnwys rhagor o fanylion am sut mae'r amrywiol gyrff sy'n gyfrifol am

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

adolygu darpariaeth yn ymgymryd â'u gwaith - er enghraifft, i ba raddau mae'r gwaith yn cynnwys ymweliadau yn ogystal â gweithgareddau papur?)

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**